| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **MEHEFIN 26 2014** |
| **TEITL:** | **DIWEDDARIAD AR Y SAFONAU IAITH** |
| **AWDUR:** | **SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR ER GWYBODAETH** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Iaith ar Ebrill 4, cadarnhawyd y bod Cyngor Gwynedd yn darparu ymateb i Ymchwiliad Safonau'r Comisiynydd Iaith.

1.2 Gwybodaeth ffeithiol ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg a'n gallu i gydymffurfio a gofynion y Safonau Arfaethedig oedd prif ofyniad yr Ymchwiliad. Fodd bynnag cyflwynwyd sylwadau mwy cyffredinol yn ogystal ynglŷn â'n hymateb fel Cyngor i'r hyn a gyflwynir fel Safonau Arfaethedig.

1.3 Cytunodd y Pwyllgor Iaith ar y sylwadau hyn ar Ebrill 4.

1.4 Erbyn hyn, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi Adroddiad Safonau, sy'n nodi casgliadau'r Ymchwiliad Safonau. Yn ogystal â'r Adroddiad hwn, mae'r Comisiynydd wedi cynhyrchu dogfen gyngor at sylw Gweinidogion Cymru sy'n crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd gan y cyhoedd a grwpiau diddordeb ar y Safonau arfaethedig eu hunain.

1.5 Gellir gweld y ddogfennaeth uchod ar wefan Comisiynydd y Gymraeg:

http://www.comisiynyddygymraeg.org/cymraeg/newyddion/Pages/Comisiynydd-yn-cyflwyno-adroddiadau-safonau-a-chyngor-i-Weinidogion-Cymru.aspx

## 2. CAMAU NESAF

2.1. Rhagwelir y daw'r rheoliadau i rym fis Tachwedd 2014.